OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 1605 (Cy. 163) (C. 63)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Addysg (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 1) 2014

*Gwnaed - - - - 17 Mehefin 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 50(4) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 1) 2014.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 2014" ("*the 2014 Act*") yw Deddf Addysg (Cymru) 2014.

### Darpariaethau sy'n dod i rym ar 14 Gorffennaf 2014

**2.** Y diwrnod penodedig ar gyfer dod â'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2014 i rym yw 14 Gorffennaf 2014—

(a) adran 42 (dyddiadau tymhorau a gwyliau ac amserau sesiynau ysgol);

(b) adran 44 (swyddogaethau addysg awdurdodau lleol yn arferadwy gan y personau a gyfarwyddir);

(c) adran 48 (mân ddiwygiadau a diddymiadau a diwygiadau a diddymiadau canlyniadol) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diwygiadau a wneir gan baragraff 1(1), (2) a (6) o Atodlen 3; a

(d) paragraff 1(1), (2) a (6) o Atodlen 3.

### Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2014

**3.** Y diwrnod penodedig ar gyfer dod ag adran 43 o Ddeddf 2014 i rym yw 1 Medi 2014.

(**1**) 2014 dccc 5.

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

17 Mehefin 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dyma'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Mae'r Gorchymyn yn dwyn i rym adrannau 42 a 48 (yn rhannol) o Ddeddf 2014, a pharagraff 1(1), (2) a (6) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno, ar 14 Gorffennaf 2014. Mae'r adrannau hynny yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phennu dyddiadau tymhorau a gwyliau ac amserau sesiynau ysgol. Effaith y darpariaethau hynny sy'n cychwyn ar 14 Gorffennaf 2014 yw mai ar gyfer y flwyddyn ysgol 2016/2017 y mae'r dyddiadau tymhorau cyntaf y mae awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig wedi penderfynu arnynt ac y mae rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru amdanynt.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn dwyn i rym adran 44 o Ddeddf 2014 ar 14 Gorffennaf 2014. Mae'r adran honno yn diwygio adrannau 25 a 26 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas ag ymyrraeth gan Weinidogion Cymru yn y modd y mae swyddogaethau addysg awdurdod lleol yn cael eu harfer.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym adran 43 o Ddeddf 2014 ar 1 Medi 2014. Mae'r adran honno yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.